



# help llaw mewn llyfr

Detholiad o lyfrau ar gyfer plant hyd at 8 oed a all helpu mewn sefyllfaoedd arbennig neu anodd

Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd

Cyngor Gwynedd Council

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government




**Pan mae plentyn yn wynebu cyfnod anodd yn ei fywyd, gall darllen am gymeriadau sy'n mynd drwy brofiadau tebyg fod yn gysur mawr.**

I riant, athro neu warcheidwad gall darllen llyfr stori a llun, sydd wedi ei ddewis yn ofalus, fod o gymorth mawr i gael plentyn i siarad am y profiadau neu'r teimladau anodd sy'n ei wynebu.

Detholiad yn unig sydd yma o'r llyfrau sydd ar gael yn y casgliad Help Llaw Mewn Llyfr. Mae llawer mwy o deitlau ar gael ac mae'r casgliad cyflawn yn cynnwys llyfrau ar gyfer pob ystod oedran i fyny at yr arddegau cynnar.

Gofynnwch yn eich llyfrgell leol os hoffech archebu unrhyw un o'r llyfrau.

Gallwch weld y rhestr gyfan ar-lein -
**www.gwynedd.gov.uk/llyfrgell**
neu gallwch archebu trwy gatalog y Llyfrgell :-
**gwynedd.prism.talis.com/catalog**
Cofiwch bydd yn rhaid i chi gael rhif eich cerdyn llyfrgell a'ch rhif PIN i logio ymlaen.

Am unrhyw wybodaeth bellach e-bostiwch
**llyfrgell@gwynedd.gov.uk**
Mae gwybodaeth i blant a phobl ifanc hefyd ar gael trwy wefan Gwynedd Ni :-
**gwynedd-ni.org.uk**

**Gallwch ymaelodi â'r llyfrgell a benthyca llyfrau yn rhad ac am ddim. 'Does neb yn rhy ifanc i gael cerdyn llyfrgell!**

## cynnwys

### PROFIADAU PLENTYNDOD


Baban Newydd yn y Teulu .......................... 4
Cychwyn Ysgol Feithrin ac Ysgol ................ 4
Symud Tŷ ...................................................... 5
Colli Dant ...................................................... 5
Defnyddio Dwmi ........................................ 5
Dod Allan o Glytiau a Defnyddio'r Tŷ Bach...................................... 5


### OFNAU, TEIMLADAU ac YMDDYGIAD


Methu Cysgu ................................................. 6
Ofnau a Theimladau ................................... 6
Bwlio ............................................................. 7


### IECHYD A CHADW'N IACH


Mynd i'r Ysbyty ac Ymweld â'r Deintydd... 7
Bwyta'n Iach ................................................ 8
Cadw'n Iach .................................................. 8
Fel Ti, Fel Fi ................................................. 9
Cadw'n Ddiogel ........................................... 9


### TEULUOEDD


Aelodau'r Teulu ...........................................10
Gwahanu ac Ysgaru ....................................11
Llysdeuluoedd .............................................11
Mabwysiadu a Maethu ...............................11


### PROFIADAU ANODD


Salwch Difrifol .............................................12
Colli Rhywun Annwyl ...................................12

## Babi Newydd yn y Teulu




**Chwaer rydw i eisiau • I Want a Sister** - *Tony Ross*
Cawn hanes sut mae'r Dywysoges Fach yn dysgu derbyn a charu ei brawd bach, er mai chwaer fach roedd hi eisiau.




**Y Monstyr Bach • Monster Baby** - *Lee Carr*
Mae Rhys eisiau chwarae efo mam ond yn gyntaf, rhaid i'w chwaer fach, Meg, fynd i gysgu. Ond dyw Meg ddim eisiau cysgu. Mae hi'n tynnu gwallt Rhys, yn taflu ei theganau ac yna mae blew yn tyfu drosti! Y monstyr bach!!





**The Boss Baby** - *Marla Frazee*
O'r eiliad mae'r babi yn cyrraedd y tŷ, mae'n amlwg mai ef yw'r bos! Gwelwn yr effaith caiff dyfodiad babi newydd ar un teulu.





**Max and Millie and the New Baby** - *Felicity Brooks*
Mae pawb yn caru'r babi newydd, ond mae Millie'n teimlo ei bod yn cael ei gadael allan. All ymweliad gan Max, ei ffrind, helpu Millie i deimlo'n llai cenfigennus tuag at y babi newydd?


## Cychwyn Ysgol Feithrin ac Ysgol





**Diwrnod cyntaf George yn yr Ysgol Feithrin • George's First Day at Playschool** – *Mark Baker*
Tydi Peppa ddim eisiau i George fynd i'r ysgol efo hi. Ond pan mae ei ffrindiau i gyd eisiau brawd bach fel sydd ganddi hi, a fydd Peppa yn newid ei meddwl?




**Fy Niwrnod Cyntaf yn yr Ysgol Feithrin**
**My First Day at Nursery** - *Becky Edwards*
Mae un ferch fach yn bryderus ar ei diwrnod cyntaf yn yr ysgol feithrin ac mae hi eisiau ei mam. Ond tybed a fydd hi'n mwynhau gludo a pheintio a chwarae gyda'r offerynnau cerdd?




**Where's My Peg?** – *Jen Green*
Gan ddefnyddio lluniau difyr a doniol, mae'r llyfr stori syml yma'n cyflwyno'r diwrnod cyntaf yn yr ysgol mewn ffordd gadarnhaol.





**Going to Playgroup** – *Catherine a Laurence Anholt*
Rhy fach i fynd i'r ysgol, rhy fawr i aros adra drwy'r dydd. Mae Tom ac Anna yn darganfod yr holl bethau hwyliog sydd i'w gwneud yn yr ysgol feithrin.

## Symud Tŷ





**Symud Tŷ • Moving House** – *Anne Civardi*
Stori ddifyr gyda darluniau lliwgar am deulu ifanc yn symud i fyw i gartref newydd. Llyfr i hybu trafodaeth am sefyllfaoedd newydd ymhlith plant 3-6 oed.

## Colli Dant




**Colli Dant (Tywysoges Fach)**
**I Want My Tooth (Little Princess)** – *Tony Ross*
Stori ddoniol ac annwyl gyda lluniau lliwgar a bywiog yn adrodd hanes tywysoges fach yn colli un o'i dannedd gan anfon pawb yn y castell i chwilio amdano.




**My wobbly tooth must not ever NEVER fall out (Charlie and Lola)** – *Lauren Child*
Mae gan Lola ddant rhydd am y tro cyntaf, ac mae hi'n benderfynol o ddal ei gafael arno – ond yna mae hi'n clywed am y Tylwyth Teg!

## Defnyddio Dwmi





**Y Dwmi Dwm Olaf Un • The Last Noo Noo** – *Jill Murphy*
Tydi Maelon ddim am roi'r gorau i'w ddwmi, ddim nes y bydd ef ei hun yn barod i wneud hynny!





**I Want My Dummy** – *Tony Ross*
Mae'r Dywysoges Fach yn gwrthod credu ei bod yn rhy hen i ddefnyddio dwmi. Ond pan mae ei chefnder yn dweud wrthi ei bod yn edrych yn dwp, mae'n pasio'r dwmi ymlaen yn gyflym iawn!

## Dod Allan o Glytiau a Defnyddio'r Tŷ Bach





**On Your Potty** – *Virginia Miller*
Llyfr bwrdd yn adrodd hanes arth fach yn dysgu dod allan o'i glytiau.




**Pirate Pete's Potty** – *Andrea Pinnington*
Llyfr bwrdd am fôr- leidr ifanc yn dysgu defnyddio'r poti. Llyfr i fechgyn.




**Princess Polly's Potty** - *Andrea Pinnington*
Dilynwch Polly wrth iddi newid ei chlwt am ddillad isaf hogan fawr a dechrau defnyddio'r poti. Llyfr i enethod.




**Zoo Poo** – *Guido Van Genechten*
Mae'r llygoden fach yn y sŵ am wybod beth sydd yng nghlwt bob un o'i ffrindiau, ond gwelwn bod ei glwt ef ei hun yn lân, am ei fod wedi dysgu defnyddio'r toiled.

## OFNAU, TEIMLADAU AC YMDDYGIAD

### Methu Cysgu




**Casi a'r Sowldiwr Sws**
– *Marion Rose*
Mae Casi'n meddwl bod rhywbeth o dan ei gwely, felly mae Taid yn gadael Sowldiwr Sws bach dewr iddi i'w gwarchod trwy'r nos.





**Methu Cysgu Wyt Ti, Arth Bach?** – *Martin Waddell*
Mae Arth fach yn cael trafferth cysgu gan ei fod ofn y tywyllwch. All Arth Mawr ddod o hyd i olau digon llachar iddo tybed?




**I Don't Like the Dark** – *Ann De Bode*
Mae Kate ofn y tywyllwch, ond mae hi'n teimlo'n well ar ôl bod yn ddewr a dweud wrth ei modryb.





**Frog is Frightened** – *Max Velthuijs*
Mae pob plentyn yn gyfarwydd â chlywed synau rhyfedd yn y nos, ond gall yr hiwmor cynnes yn y stori hon helpu i oresgyn yr ofnau yma.




**I am NOT sleepy and I WILL NOT go to bed!** – *Lauren Child*
Mae Charlie weithiau yn gorfod trio cael ei chwaer fach, Lola, i fynd i'r gwely. Ond tydi hyn ddim yn hawdd, gan fod Lola yn hoffi aros i fyny yn hwyr.


### Ofnau a Theimladau








**Teimlo'n Swil + Teimlo'n Bryderus** – *Sally Hewitt*
Cyfres yn sôn am sefyllfaoedd a phrofiadau cyfarwydd i blant.





**Yr Arth yn y Cwtsh Dan Stâr •**
**The Bear Under the Stairs** – *Helen Cooper*
Mae Wiliam yn ofni'r tywyllwch, a'r arth sy'n byw yn y twll dan stâr. Stori sy'n dangos y gall ofnau gael eu concro.

**Gwnewch yn siŵr fod eich plentyn wedi ymlacio yn gyntaf ac yn barod i setlo lawr i wrando. Gallwch ddarllen ychydig o straeon cyffredin i gychwyn, neu sgwrsio am bethau cyffredinol gyda'ch gilydd.**





**I'm Gonna Like Me** – *Jamie Lee Curtis*
Stori hwyliog i annog hunan-barch mewn plant, ac yn sgîl hynny i'w dysgu i hoffi eu hunain.





**The Huge Bag of Worries** – *Virginia Ironside*
Mae Jenny yn cario ei phryderon efo hi i bob man mewn bag glas. Pwy all helpu Jenny i gael gwared â'r bag o bryderon?

## Bwlio




**Paid bod mor gas, Bwni Mawr!** – *Steve Smallman*
Mae un gwningen fawr greulon yn peri gofid ofnadwy i weddill anifeiliaid bach y goedwig ac yn gwneud eu bywydau'n boen. Ond, ar ôl cael llond bol ar yr holl ormes gan y bwli mawr, mae un gwningen fach yn penderfynu sefyll yn gadarn yn ei erbyn.




**Hen Fwli Mawr** – *Toni Goffe*
Llyfr sy'n esbonio bwlio, pam bod rhywun yn bwlio a sut i ddelio efo bwlis.





**Is It Because?** – *Tony Ross*
Stori sy'n delio â bwlio mewn ffordd sy'n gwneud i ni gydymdeimlo ac edrych ar y ddwy ochr.





**Leave Me Alone** - *Kes Gray*
Mae bachgen bach yn cael trafferth delio gyda bwli, ond yna mae ei ffrindiau yn dangos iddo bod wyth llais yn gryfach nag un!

# IECHYD A CHADW'N IACH

## Mynd i'r Ysbyty ac Ymweld â'r Deintydd





**Mynd i'r Ysbyty** - *Anne Civardi*
Stori ddifyr gyda darluniau lliwgar am fachgen ifanc yn mynd i'r ysbyty am y tro cyntaf.




**Mynd at y Deintydd** - *Anne Civardi*
Stori liwgar am bâr o efeilliaid yn ymweld â'r deintydd am y tro cyntaf, gyda chyfle i'r plentyn chwilio am hwyaden fach ar bob tudalen.

Darllenwch y llyfr fel stori gyntaf, ac yna, os yw eich plentyn yn barod, darllenwch y llyfr eto yn araf, gan esbonio fel rydych yn mynd yn eich blaen ac ateb cwestiynau eich plentyn mor onest ag y gallwch




**I Don't Want To Go To Hospital** – *Tony Ross*
Pan mae'r doctor yn dweud bod raid iddi fynd i'r ysbyty, mae'r dywysoges fach yn penderfynu nad yw hi eisiau mynd.  A wnaiff hi newid ei meddwl?





**Sometimes** – *Rebecca Elliott*
Mae Toby yn gwybod bod Clemmie, ei chwaer, yn ddewr iawn. Pan mae hi'n gorfod mynd i'r ysbyty, mae'r ddau yn helpu ei gilydd i wneud y profiad yn llawer gwell nag yr oeddent wedi ei ofni.





**The Boy Who Hated Toothbrushes** – *Zehra Kicks*
Mae Billy yn casau brwshys dannedd! Ond tydi o erioed wedi gweld un fel hyn o'r blaen.

## Bwyta'n Iach




**Fydda i byth BYTHOEDD yn bwyta tomato (Cai a Lois) • I will not ever NEVER eat a tomato (Charlie and Lola)** – *Lauren Child*
Cawn weld sut mae Cai yn llwyddo i berswadio ei chwaer fach i drio gwahanol fwydydd.





**Lola'r Lindys Barus** – *Pat Brown*
Nid yw'n syniad da bwyta gormod o bethau anghywir os ydych eisiau osgoi poen bol!




**Vegetable Glue** – *Susan Chandler*
Os nad yw eich corff yn gweithio fel y dylai, mae'n amser bwyta mwy o lysiau!

## Cadw'n Iach




**Golcha Dy Ddwylo** (Tywysoges Fach) – *Tony Ross*
Mae'r Dywysoges Fach wrth ei bodd yn baeddu ei dwylo, ond sgwn i beth fydd yn ei pherswadio hi i'w golchi nhw!





**Scritch Scratch** – *Miriam Moss*
Mae'r dosbarth i gyd yn dioddef o lau pen.




**Whiffy Wilson the wolf who wouldn't wash** – *Caryl Hart*
Tydi Whiffy Wilson ddim yn hoff iawn o ymolchi. All unrhyw un ei berswadio i newid ei ffordd?

Os nad yw eich plentyn yn dangos diddordeb, yn anhapus neu'n elyniaethus i'r stori, efallai nad dyma'r amser neu'r llyfr cywir. Efallai fodd bynnag y bydd eich plentyn yn uniaethu llawer gyda'r sefyllfa arbennig yn y stori ac eisiau dod yn ôl ati dro ar ôl tro.

## Fel Ti, Fel Fi





### Looking after Louis – *Lesley Ely*

Mae'r stori yma yn gyflwyniad i awtistiaeth, ac yn dangos sut mae ffrindiau Louis yn darganfod ffordd i ymuno yn ei fyd ef, ac wedyn i'w gynnwys ef yn eu byd hwythau.




### Zack has Asthma – *Jillian Powell*

Mae Zack yn dangos sut y mae ef ei hun, ei deulu a'i ffrindiau yn delio â sefyllfaoedd o ddydd i ddydd.




### Moonbird – *Joyce Dunbar*

Mae bod yn fyddar yn cael ei gyflwyno fel peth positif, hardd, yn y stori hon am fachgen sy'n dysgu siarad gyda'i ddwylo a gwrando gyda'i lygaid.





### Susan Laughs – *Jeanne Willis*

Mae Susan yn defnyddio cadair olwyn. Mae hi'n chwerthin, canu, hedfan, ac yn nofio. Mae hi'n dda, yn ddrwg, yn hapus ac yn drist. I ddweud y gwir, tydi hi ddim gwahanol i unrhyw blentyn arall!




### Operation Fix-it – *Diane Church*


Mae'n rhaid i Tom fynd i'r ysbyty am lawdriniaeth ar ei galon. Cawn ddilyn ei hanes trwy'r driniaeth a thra'n gwella wedyn, y pethau anodd y bu'n rhaid iddo wynebu a'r ffrindiau newydd a wnaeth yn yr ysbyty.




### Victoria's Day – *Maria de Fatima Campos*

Diwrnod ym mywyd Victoria sydd wedi ei geni â Syndrom Down.

## Cadw'n Ddiogel




### Llyfr Rheolau Aur Calfin Cwningen – *Pam Adams*

Llyfr lliwgar hwyliog gyda tegan bach ar ffurf cwningen i ddysgu plant bach i gymryd gofal wrth ddelio â dieithriaid.




### I Can't Find You Mum – *Anne de Bode*

Tra allan yn siopa efo'i mam, mae Jessie yn mynd i guddio yng nghanol y dillad. Ond pan ddaw hi allan, mae'n methu gweld ei mam yn unman. Beth yw'r peth gorau i'w wneud mewn sefyllfa fel hyn?

Gallwch gyfeirio mewn sgwrs at broblemau'r cymeriadau yn y stori a thrafod hynny gyda'ch plentyn mewn ffordd llai uniongyrchol a llai bygythiol.











**Staying Safe in Playgrounds / near Fire / near Water** – *Maribeth Boelts*
Cyfres i ddysgu plant am ddiogelwch personol mewn gwahanol sefyllfaoedd a allai fod yn beryglus.





**Look Out : Out and About** - *Claire Llewelyn*
Diogelwch personol ar gyfer plant ifanc.

## TEULUOEDD


### Aelodau'r Teulu















**My Sister / My Brother / My Mum / My Dad** – *Mary Auld*
Cyfres 'Meet the Family' sy'n dathlu'r ffaith bod miliynau o deuluoedd i'w cael, a phob un ohonynt yn unigryw.




**My Little Brother** – *Debi Gliori*
Hanes chwaer fawr sy'n dymuno i'w brawd bach ddiflannu am ei fod yn mynd ar ei nerfau. Ond sut mae hi'n teimlo pan mae'n edrych yn debyg bod y dymuniad yma wedi dod yn wir?




**My Mum Goes to Work** – *Kes Gray*
Llyfr doniol a chyfoes sy'n cysuro y rhiant a'r plentyn bod popeth yn iawn pan mae rhiant yn gorfod mynd i weithio.





**Do I Have a Daddy?** – *Jeanne Warren Lindsay*
Stori am blentyn sy'n byw gydag un rhiant, yn cynnwys adran arbennig ar gyfer rhieni sengl.

Os yw eich plentyn yn anhapus neu yn poeni am rhywbeth, gall darllen am rywun sy'n mynd drwy rhywbeth tebyg fod yn gysur mawr iddo.

## Gwahanu ac Ysgaru





**Mum and Dad Glue** – *Kes Gray*
Mae bachgen bach yn chwilio am y potyn glud sy'n mynd i lynu ei fam a'i dad yn ôl at ei gilydd. Ond er bod ei fam a'i dad wedi torri mae'n sylwi'n fuan nad yw eu cariad tuag ato fo wedi newid o gwbwl.

**Dinosaurs Divorce** – *Laurence Krasny Brown*
Canllaw i deuluoedd sy'n mynd drwy newidiadau. Gan ddechrau gyda digwyddiadau sy'n arwain at wahanu, mae'r llyfr yn delio gyda sawl agwedd o ysgaru mewn ffordd effeithiol a chynhwysfawr.

## Llysdeuluoedd







**My Stepfamily** – *Julie Johnson*
Gall y lluniau a'r testun syml yn y llyfr yma fod o gymorth i blant ddeall y teimladau cymhleth sydd ganddynt am fod yn aelod o lysdeulu.


**How Can I Deal With My Stepfamily** – *Sally Hewitt*
Weithiau mae'n bosib datrys problemau ar eich pen eich hun, ond o bryd i'w gilydd mae angen gofyn am help.

## Mabwysiadu a Maethu










**Over the Moon** – *Karen Katz*
Caiff merch fach ei geni, ac mae'r rhieni sydd wedi bod yn breuddwydio amdani ers blynyddoedd yn hedfan yn bell, bell i ffwrdd i'w nôl hi a dod a hi adref.

**Our Twitchy** – *Kes Gray*
Mae Twitchy a'i rieni, Milfoil y fuwch a Sedge y ceffyl yn byw mewn twll cwningen ac yn bwyta moron. Ond un dydd mae gan mam a dad rywbeth pwysig iawn i'w ddweud wrtho. Stori am fabwysiadu.

**Tell Me Again About The Night I Was Born** - *Jamie Lee Curtis*
Mae merch fach yn gofyn i'w rhieni ddweud wrthi eto am y noson cafodd ei geni, stori mae hi yn ei gwybod yn dda iawn.

**Gall plentyn ei chael yn haws siarad am brofiadau a theimladau cymeriad mewn llyfr cyn ei fod yn barod i siarad amdano ei hun. Gall stori roi'r pellter rhwng y plentyn a'r sefyllfa i'w alluogi i wneud hyn.**


# PROFIADAU ANODD





## Salwch Difrifol

**Mummy's Lump** – *Gillian Forrest*
Stori sy'n addas ar gyfer teulu sydd angen siarad am ganser y fron, wedi ei hadrodd mewn ffordd syml a gonest ar gyfer plant ifanc.

## Colli Rhywun Annwyl





**Taid / Granpa** – *John Burningham*
Dyna un annwyl yw Taid. Mae'n magu doliau ei wyres, yn bwyta hufen iâ mefus smalio, ac yn cyd-fynd â'i chynllun i fynd ar fordaith i Affrica. Bydd y plant sy'n darllen y llyfr yma yn cofio cyfeillgarwch y ddau am amser maith.




**A Star For Bobby** – *Helen Keenor*
Llyfr i blant ifanc am golli brawd neu chwaer wedi ei adrodd ar ffurf stori am gyw aderyn a enir yn wael ac a fu farw.




**Missing Mummy** – *Rebecca Cobb*
Mae hon yn stori sensitif, gyda lluniau a thestun syml, a all helpu plant ac oedolion i rannu eu teimladau â'i gilydd yn dilyn marwolaeth mam.




**The Heart and the Bottle** – *Oliver Jeffers*
Un tro roedd merch fach oedd yn llawn rhyfeddod am y byd o'i hamgylch. Ond yna, digwyddodd rhywbeth a achosodd iddi gymryd ei chalon a'i chadw mewn lle diogel. Wedi gwneud hyn, sylwodd bod pethau yn fwy gwag na chynt. A fydd hi'n gwybod sut i gael ei chalon yn ôl? Stori am ddelio â cholled.